**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref MA/JMEWL/3106/23

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

23 Ionawr 2024

Annwyl Jayne

Diolch am y cyfle i drafod cynigion cyllideb ddrafft 2024-25 ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ein sesiwn dystiolaeth ar 17 Ionawr. Dyma'r wybodaeth bellach i chi ar ddau gam gweithredu er mwyn llywio eich gwaith craffu parhaus ar y gyllideb.

**Dadansoddiad o'r gostyngiadau mewn adnoddau yn 2023-24**

Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad yn ôl Llinell Wariant y Gyllideb o'r cyfanswm o £74.7m o ostyngiadau mewn adnoddau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 17 Hydref 2023, a fydd yn cael eu ffurfioli fel rhan o'r Ail Gyllideb Atodol 2023-24 ar 20 Chwefror. Rhoddais gadarnhad i'r Pwyllgor fod arbedion wedi'u nodi trwy adolygiad o'r gwariant heb ei ymrwymo ac ailbroffilio cyllidebau a arweinir gan gan alw.

**Gradd-brentisiaethau**

Fel y gwyddoch, rwy'n rhannu'r cyfrifoldeb am radd-brentisiaethau gyda Gweinidog yr Economi ac rwy'n cydweithio ag ef i gefnogi'r gwaith o ddarparu a chynllunio ar gyfer y gyllideb brentisiaeth. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn gyfrifol am reoli prentisiaethau o 1 Ebrill ymlaen. Er nad oes modd cadarnhau faint o gyllid a fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer gradd-brentisiaethau ar hyn o bryd, gallaf gadarnhau y bydd y gyllideb briodol yn cael ei throsglwyddo o Brif Grŵp Gwariant Economi yn y gyllideb atodol ar gyfer 2024-25.

Byddaf yn darparu ymateb i'r ddau gam gweithredu sy'n weddill o'n sesiwn dystiolaeth pan fyddaf wedi cael fy hysbysu.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A – Dadansoddiad o £74.7m o ostyngiadau mewn adnoddau ar gyfer 2023-24**

| Enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Ailflaenoriaethu 2023-24<br><br>i Gronfeydd wrth gefn<br>£000 |
|---|---|
| Y Cwricwlwm ac Asesu | -489 |
| Datblygiad a Chymorth i Athrawon | -2,340 |
| Cymwysterau Cymru | 0 |
| Darpariaeth Ôl-16 | -8,498 |
| Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu | 0 |
| Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | -200 |
| CCAUC – Gwariant ar Raglenni | -670 |
| Y Grant Gwella Ysgolion | -2,155 |
| Cymorth Safonau Ysgolion | 0 |
| Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | 0 |
| Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | -450 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 0 |
| Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | -12,340 |
| Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 0 |
| Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant | -1,630 |
| Grwpiau Agored i Niwed | -200 |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr[1] | -44,636 |
| Gweinyddol CMC/CThEF | 0 |
| Mynd i’r Afael â Dadrithiad | 0 |
| Ysgolion Bro | -270 |
| Dysgu ar gyfer Troseddwyr | 0 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | -850 |
| Cyfathrebu ym maes Addysg | 0 |
| Y Rhaglen Addysg Ryngwladol | 0 |
| Cymraeg mewn Addysg | 0 |
| Y Gymraeg | 0 |
| Comisiynydd y Gymraeg | 0 |
| Seilwaith Addysg | 0 |
| **Cyfanswm** | **-74,728** |

[1] Y gostyngiad llawn i'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb a gaiff ei ffurfioli yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24 yw £53.4m, ac mae £44.6m ohono'n cael ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn gyda'r balans o £8.8m yn cael ei ddefnyddio yn y Prif Grŵp Gwariant.